# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Rheoli Tir Cymru |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Mawrth 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Ruth Jenkins, CNC<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Elaine Harrison, Confor<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA)<br>Hedd Pugh, NFU Cymru<br>Huwel Manley, CNC<br>Claire Powell, CFfI Cymru<br>Rhys Jones, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC |
| **Eraill yn bresennol:** | Julie Boswell, CNC<br>Sue Buckingham, CNC<br>Brian Price, CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Tim Kirk, Confor<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>John Browne, CNC<br>Jon Goldsworthy, CNC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd WLMF) bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau ganddo. Croesawodd Rhys Michelle Griffiths (Rheolwr Tir Cynaliadwy, CNC) a Rhys Jones (Arweinydd Tîm Rheoli Tir Cynaliadwy) i'r cyfarfod. Ymunodd Claire Powell â'r cyfarfod i gynrychioli CFfI Cymru a nodwyd ganddi mai Angharad Davies fydd eu cynrychiolydd newydd o 1 Ebrill 2024.

2. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda i'w hystyried.

3. Atgoffwyd y Grŵp fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion llunio'r cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u llunio.

## Eitem 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol, camau gweithredu a materion yn codi.

4. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 a derbyniwyd hwy fel cofnod cywir.

5. Adolygodd y grŵp y camau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd a rhoddwyd diweddariadau ar lafar:

    - PG01 Rhagfyr: Huwel Manley/John Browne, CNC, i ymchwilio i bwy sy'n arwain ar systemau draenio cynaliadwy coedwigaeth i weld a oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud, a rhoi adborth i'r grŵp.

        - Soniodd Bronwen ei bod wedi siarad â Helen Cariss, CNC, sydd wedi cytuno i ymchwilio i hyn a rhoi adborth. Soniodd Huwel fod gan Lywodraeth Cymru grŵp adolygu sy'n edrych ar systemau draenio cynaliadwy.

    - PG02 Rhagfyr: Jon Goldsworthy, CNC, i roi adborth ynghylch y ffaith nad yw ffermwyr yn cael cyfle i gyfrannu at y penderfyniad am y drwydded dip defaid.

        - Dim gweithredu pellach. Mae sylwadau wedi cael eu bwydo yn ôl. Daeth yr ymgynghoriad ar ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/2025 (Adolygiad strategol o godi tâl) i ben ar 8 Ionawr 2024.

    - PG03 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC, i archwilio a ellir rhannu gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol â Fforwm Rheoli Tir Cymru (sylwer bod angen ystyried y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).

        - Nid yw'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth yn grŵp cyhoeddus, a dim ond CNC a all geisio cyngor, felly ni fydd y rhestr aelodaeth yn cael ei rhannu. Elaine Harrison yw'r cyswllt rhwng Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol.

    - PG04 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC, i ymgynghori â chydweithwyr ynghylch ychwanegu gwybodaeth am y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth i wefan allanol CNC.

        - Gweler uchod. Ni fydd gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yn cael ei chyhoeddi ar wefan CNC. Fodd bynnag, cytunodd Rhys a Ruth y gellid cynnwys gwybodaeth eang am fodolaeth y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar wefan CNC.

***PG 01 – 11 Mawrth: Bronwen Martin i siarad â chydweithwyr am gynnwys gwybodaeth eang am fodolaeth y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar wefan CNC.***

- PG06 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC, i archwilio ynglŷn â threfnu cyflwyniad yn y dyfodol ar Ddatganiadau Ardal, Polisi Adnoddau Naturiol ac efallai Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

    - Cyflwyniad o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar yr agenda heddiw. Mae cydweithwyr wedi dweud ei bod yn rhy gynnar i

ddarparu unrhyw ddiweddariad ystyrlon ar y Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal – wedi'i ychwanegu at y rhagolwg.

- PG07 Rhagfyr: Jon Goldsworthy a Huwel Manley i holi cydweithwyr am y diweddaraf ynglŷn â rhyddhau afancod yn Nyffryn Dyfi.

  - Soniodd Ruth fod hyn hefyd wedi'i drafod yng nghyfarfod NFU Cymru y bu'n bresennol ynddo yn ddiweddar gyda Ceri Davies, CNC – byddent yn archwilio'r mater ac yn darparu diweddariad drwy'r fforwm.

- PG08 Rhagfyr: Rhys Jones i siarad â Ruth Jenkins ynglŷn â chael cyfarfod wyneb yn wyneb o bosib yn ddiweddarach yn 2024.

  - Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â chynnal un o'r pedwar cyfarfod wyneb yn wyneb. Efallai y byddwn yn cael cyfarfod wyneb yn wyneb yn yr haf neu'r hydref.

- PG09 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC, i wahodd James Cooke, Llywodraeth Cymru i roi cyflwyniad mewn cyfarfod ar thema priddoedd yn y dyfodol.

  - Mae Bronwen wedi siarad â James Cooke ynglŷn â gwneud cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac mae'n bosibl y byddai ar gael ar gyfer cyfarfod yr haf neu'r hydref.

6. O ran Ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, soniodd Ruth fod CNC wedi cyflwyno ymateb a dywedodd y byddem yn hapus i'w rannu pe bai unrhyw un yn dymuno ei weld – Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymateb i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Eitem 3. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru

7. Ymunodd Julie Boswell, CNC, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y broses o ddiweddaru SoNaRR. Mae diben a gofynion SoNaRR wedi'u nodi yn Neddf Amgylchedd Cymru a'r canllawiau statudol yr ydym yn eu dilyn. Mae'r gofynion hyn yn llywio'r dulliau a ddefnyddiwn a chynnwys yr adroddiad pum mlynedd.

8. Mae SoNaRR yn asesu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi ystod o gyfleoedd ar gyfer gweithredu. Mae SoNaRR yn mabwysiadu dull o edrych ar y berthynas rhwng yr amgylchedd (adnoddau naturiol ac ecosystemau), y gymdeithas a'r economi yn ôl systemau. Rhoddodd Julie drosolwg o sut mae SoNaRR yn asesu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae SoNaRR yn sylfaen dystiolaeth i lywio polisi a newid ac mae'n defnyddio fframwaith DPSIR: Sbardun, Pwysau, Cyflwr, Effaith ac Ymateb. Mae ffactorau sy'n ysgogi newid yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau, newid defnydd tir a môr, gorddefnydd a llygredd.

9. Trafododd Julie y broses o nodi tystiolaeth ar gyfer SoNaRR 2025, sut mae'n dod ynghyd a'r amserlen a ragwelir. Bydd yr asesiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein gydag opsiwn posibl i'w lawrlwytho. Ar ôl cyhoeddi, hoffem greu rhai cynhyrchion sy'n benodol i ddefnyddwyr a bydd manylion y rhain yn cael eu cynllunio dros y misoedd nesaf.

10. Soniodd Dennis Matheson, TFA Cymru, fod Llywodraeth Cymru newydd gomisiynu Miller Consulting i gynnal ymgynghoriad ar ddiogeledd bwyd. Ymgynghoriaeth yw hon a gyflawnodd yr ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy tridiau gwreiddiol yn fuan ar ôl Brexit yn Aberystwyth. Ar y pryd, roedd hi'n ymddangos y byddai diogeledd bwyd tua dwy ran o dair o'r ffordd i lawr y rhestr blaenoriaethau. Gofynnodd Dennis a fyddai SoNaRR yn ei gymryd i ystyriaeth ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau o'r ymgynghoriad diweddaraf. Dywedodd Julie y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r rhai sy'n arwain yr asesiadau penodol. Dywedodd Dennis, cyn belled ag y mae pethau ar hyn o bryd, ychydig iawn o denantiaid sy'n mynd i allu manteisio ar y cynllun oherwydd rhwystrau a'u cytundebau tenantiaeth. Mae hynny'n golygu na fydd hyd at 30% o Gymru yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru – rhaid i hyn gael ei gynnwys yn eich tystiolaeth oni bai bod y cynllun yn cael ei newid yn ddirfawr.

11. Soniodd Hedd Pugh, NFU Cymru, fod Glastir wedi dod i ben fis Rhagfyr diwethaf a bod Cynllun Cynefin Cymru am flwyddyn yn unig. Mae'n destun pryder efallai nad cynlluniau amgylcheddol yw'r flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol. Mae tua 3,000 o ffermwyr wedi bod yn cymryd rhan yn Glastir, Tir Gofal a hyd yn oed Tir Cymen cyn hynny. Mae llawer o ffermwyr wedi bod mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ers dros 30 mlynedd. Soniodd Julie y bydd CNC yn defnyddio adroddiadau Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) a fydd yn cael eu cyhoeddi yn yr haf fel rhan o'n sylfaen dystiolaeth i ddangos yr hyn y mae cynlluniau blaenorol wedi'i ddarparu.

12. Dywedodd Rhys fod y fframwaith yr ydych yn ei fabwysiadu yn canolbwyntio ar yr ecosystem a'r amgylchedd a'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd, ond mae yna hefyd gyd-destun tir a rheoleiddio pwysig sy'n effeithio ar gyflwr yr amgylchedd ac adnoddau naturiol yng Nghymru. Gofynnodd Rhys a oedd y ffactorau hynny'n dod i mewn i SoNaRR. Dywedodd Julie y byddant, yn bendant; mae cydweithiwr wrthi'n gweithio ar y dystiolaeth ar gyfer sbardunau newid a phwysau rheoli defnydd tir. Bydd hynny wedyn yn bwydo drwodd i'r asesiadau o amgylch rhannau cymdeithasol ac economaidd SoNaRR.

13. Soniodd Sarah am yr adroddiad ar ddiogeledd bwyd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gomisiynu, sydd ar y gweill ac yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto, felly mae'n debyg nad yw wedi cyrraedd cam lle gallem ddefnyddio'r data ar gyfer SoNaRR. Dywedodd Sarah fod ganddi gyswllt ar gyfer y gwaith hwn.

14. Holodd Rhys ynghylch cyflwyno'r dystiolaeth o ran amlinellu blaenoriaethau a chyfleoedd. Dywedodd Julie ein bod ni, wrth inni weithio drwy'r adroddiad, yn nodi cyfleoedd posibl, ond nid CNC yn unig sy'n gyfrifol am weithredu, mae hefyd yn fater i bobl Cymru. Byddwn yn nodi opsiynau a chyfleoedd ac yna'n eu cyflwyno i eraill i ymdrin â nhw a gweithio drwyddynt. Fel rhan o'r asesiad hwn, rydym yn ceisio nodi rhai o'r camau gweithredu sydd wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf a chasglu'r wybodaeth honno fel rhan o'n pecynnau tystiolaeth, fel y gallwn egluro'r hyn yr aethpwyd i'r afael ag ef ers hynny neu'r hyn y gellid dal ymdrin â nhw.

15. Holodd Rhys ynglŷn â'r galwadau am dystiolaeth newydd mewn perthynas â gwastraff, tirwedd, ynni ac adnoddau anadnewyddadwy, gan ofyn hefyd a oes patrwm o ran y ffaith bod rhai ardaloedd â thystiolaeth weddol swmpus. Dywedodd Julie i ni gael rhai penodau â thema megis gwastraff a defnydd tir y tro diwethaf, ond nid oedd tirwedd yn thema, felly rydym am fynd i'r afael â hynny yn SoNaRR 2025. O ran sut yr ydym yn

nodi tystiolaeth newydd, mae'r rhai sy'n arwain yr asesiadau yn arbenigwyr yn y meysydd polisi hynny a byddant yn mynd allan i siarad â phobl berthnasol i nodi beth yw'r themâu hynny sy'n dod i'r amlwg i'w hystyried wrth inni symud ymlaen – mae'r broses hon yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

16. Holodd Rhys ynglŷn â gwyddoniaeth dinasyddion gan nad oedd hi'n ymddangos fel pe bai'n rhan o'r hierarchaeth tystiolaeth. Dywedodd Julie ei bod yn dibynnu ar y rhai sy'n gweithio yn y maes hwnnw i helpu i nodi'r dystiolaeth berthnasol ac i amlygu a ydyw'r dystiolaeth wedi dod o wyddoniaeth dinasyddion. Er enghraifft, mae asesiadau bioamrywiaeth yn cynnwys llawer o wyddoniaeth dinasyddion megis arolygon adar ac ystlumod. Dywedodd Ruth, lle bo tystiolaeth yn cael ei derbyn fel rhan o'r broses, mae'n rhaid i ni fod yn gyfforddus bod lefelau priodol o wybodaeth wedi'u gwirio.

***PG 2 – 11 Mawrth: Bronwen Martin, CNC, i rannu copi o'r cyflwyniad SoNaRR a manylion cyswllt ar gyfer Julie Boswell, CNC.***

## Eitem 4. Lleihau allyriadau amonia o amaethyddiaeth ger safleoedd gwarchodedig

17. Sue Buckingham a Brian Price, CNC, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i leihau allyriadau amonia o amaethyddiaeth ger safleoedd gwarchodedig. Mae Brian wedi bod yn edrych ar leihau lefelau amonia o amgylch safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA), o ble mae'n dod, ac yn asesu'r llwyth nitrogen ar safleoedd (ar ffurf amonia nwyol).

18. Rhoddodd Brian drosolwg o'r mewnbynnau anthropogenig, sy'n un o'r sbardunau ar gyfer gweithgarwch dynol, a disgrifiodd y ffynonellau, trafnidiaeth/trawsnewid a dyddodiad. Dangoswyd effeithiau nitrogen uchel ac amonia mewn ffotograffau o slwtsh algaidd. Comisiynwyd Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH) i ddarparu ap proffilio nitrogen. Eglurodd Brian y gwaith modelu a wnaed i asesu safleoedd a nodi achosion, sy'n helpu i deilwra'r ymateb yn seiliedig ar allyrwyr lleol. Rhannwyd canlyniadau rhai o'r sampleri a'r synwyryddion a leolwyd ar/ger SoDdGA â'r grŵp. Tynnodd Brian sylw at rai o'r camau ymarferol y gall ffermwyr eu cymryd i leihau allyriadau amonia.

19. Disgrifiodd Brian y cynlluniau gweithredu nitrogen safle (SNAPs) safle-benodol sy'n anelu at nodi ffynonellau allyriadau lleol, lleihau dyddodiad nitrogen a lefelau amonia sy'n effeithio ar safleoedd gwarchodedig, a galluogi dull mwy cydweithredol ac integredig o fynd i'r afael â dyddodiad nitrogen gormodol ac amonia.

20. Crynhodd Sue y colledion nitrogen adweithiol o gynhyrchu bwyd a rhoddodd drosolwg o allyriadau amonia yn ôl ffynhonnell yng Nghymru gydag ystadegau penodol ar gyfer allyriadau fesul sector amaethyddiaeth. Edrychodd Sue ar werth nitrogen a gollwyd i aer fel amonia o safbwynt busnes fferm. Disgrifiodd Sue hefyd effaith amonia a deunydd gronynnol 2.5 (PM 2.5) ar iechyd dynol. Soniodd Sue am rai o'r ffrydiau ariannu a'r cyngor sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru i leihau amonia.

21. Roedd Huwel yn cofio rhai o'r pwyntiau ynghylch effaith PM2.5 ar iechyd y cyhoedd a'r effaith bosibl ar iechyd teuluoedd ffermio. Gofynnodd Huwel a oedd unrhyw ddata neu dystiolaeth ar gael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch hyn. Dywedodd Sue fod Llywodraeth Cymru wedi edrych ar fanteision cynllunio maethynnau, ond nid yw'n

ymddangos ei fod wedi'i gyfuno â'r agwedd o ran iechyd y cyhoedd. Cytunodd Huwel a Sue i gael sgwrs ar ôl y cyfarfod ynglŷn ag â phwy y gellid trafod hyn yn Llywodraeth Cymru.

22. Holodd Dennis ynglŷn â'r berthynas rhwng allyriadau methan ac amonia. Roedd Dennis yn cofio gwybodaeth am astudiaeth yn lleihau allyriadau methan yn uniongyrchol o wartheg lle cawsant eu bwydo â gwymon asbaragws a leihaodd allyriadau 90%. Tynnodd 'Farming Today' ar Radio 4 sylw hefyd at fferm ar ystad yn Swydd Rydychen sydd wedi buddsoddi mewn gwaith i brosesu slyri a gwastraff yn ffurf gludadwy o belenni tra'n cadw'r holl faetholion. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu cludo i ddwyrain y DU lle mae prinder. Awgrymodd Dennis y byddai'n well atal gwartheg rhag ei ollwng yn y lle cyntaf. Soniodd Sue fod llawer o ychwanegion ar gael, ond nid oes yr un ohonynt yn cael eu derbyn gan DEFRA ar hyn o bryd; dylid monitro'r sefyllfa hon dros amser.

23. Trafododd y grŵp atebion posibl gan gynnwys y defnydd o dechnoleg newydd ac arloesi, cost cynhyrchu bwyd, polisïau, mecanweithiau marchnad a chymorth i ffermwyr.

***PG 3 – 11 Mawrth: Bronwen Martin i rannu copïau o'r cyflwyniadau 'Lleihau amonia' a manylion cyswllt ar gyfer Sue Buckingham a Brian Price, CNC.***

# Eitem 5. Diweddariadau CNC

24. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd Papur Diweddaru WLMF. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a dod i'r cyfarfod â chwestiynau. Cydnabu Rhys fod llawer o amser yn cael ei roi i gynhyrchu Papur Diweddaru WLMF a diolchodd i'r rhai sydd wedi cyfrannu.

25. Soniodd Michelle y bydd y rheoliadau newydd o ran ailgylchu yn y gweithle yn cael eu lansio ym mis Ebrill 2024. Mae hyn ar gyfer pob busnes a lle annomestig yng Nghymru – [Llywodraeth Cymru: Newidiadau i ailgylchu yn y gweithle].

26. Holodd Elaine ynglŷn â'r Cod Dŵr Coetiroedd ac a ydyw hynny'n rhywbeth y gallai Confor gymryd rhan ynddo. Dywedodd Sarah fod y Cod Dŵr Coetiroedd yn cael ei ddatblygu gan gonsortiwm dan arweiniad Forest Research, a ariennir gan Lywodraeth y DU trwy raglen Cronfa Natur ar gyfer Hinsawdd DEFRA. Gofynnodd Sarah a oedd gan Confor gysylltiad ar lefel y DU, a dywedodd Elaine y byddai'n siarad â'i chydweithiwr yn Lloegr.

27. Soniodd Ruth ein bod yn cynnal adolygiad o'r holl fforymau y mae CNC yn eu harwain. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, hoffem ddarparu holiadur byr i aelodau i roi adborth.

28. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'r diweddariadau ysgrifenedig gan CNC a ddarparwyd cyn y cyfarfod.

## Eitem 6. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Undeb Amaethwyr Cymru / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad / Cymdeithas y Ffermwyr Tenant / Llywodraeth Cymru

29. **UNDEB AMAETHWYR CYMRU:** Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

30. **NFU Cymru:** Dywedodd Hedd fod NFU Cymru wedi bod yn hynod o brysur dros y misoedd diwethaf gyda'r ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Maent wedi ymgysylltu â thros 5,000 o aelodau trwy eu sioeau teithiol a chyfarfodydd sirol. Rydym yn aros i glywed ymateb Llywodraeth Cymru ar ôl iddi ddarllen yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Soniodd Hedd fod llawer o rwystredigaeth ymhlith ffermwyr, nid yn unig oherwydd yr SFS ond hefyd parthau perygl nitradau (NVZ), TB a Chynllun Cynefin Cymru. Nid yw'r gwaith ar yr SFS wedi dod i ben; bydd angen inni weithio gyda Llywodraeth Cymru i symud pethau ymlaen.

31. **CFfI Cymru:** Rhoddodd Claire yr wybodaeth ddiweddaraf am y cydweithiwr newydd a fydd yn dechrau ym mis Ebrill. Dywedodd Claire fod CFfI Cymru yn awyddus i gyfrannu at unrhyw ymgynghoriadau oherwydd ni yw dyfodol y diwydiant amaethyddol ac rydym am fod yn rhan o unrhyw drafodaethau posibl.

    Ers y Nadolig, mae'r Pwyllgor Materion Gwledig wedi bod yn brysur iawn yn casglu barn ein haelodau ar yr SFS. Cawsom weithdy gyda'r ddau undeb ffermio a oedd yn bresennol a bu'r swyddogion polisi yn siarad â'n haelodau am y cynllun ac yn rhoi cymorth ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad. Gwnaethon ni greu ein templed ein hunain a gafodd ei rannu â'n haelodau yn uniongyrchol ac ar ein rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol. Cawsom lawer o ymatebion a gafodd eu hargraffu'n gorfforol a'u cludo i'r Senedd yr wythnos ddiwethaf a'u cyflwyno i Mark Alexander. Cawsom hefyd gyfarfod 45 munud gyda Mark Alexander lle mynegodd ein huwch-swyddogion eu barn fel pobl ifanc a dyfodol amaethyddiaeth. Rhanasant eu barn ar y cynllun a sut y bydd yn effeithio arnynt. Rydym yn awr yn awyddus i glywed barn Llywodraeth Cymru ar yr hyn y mae'n mynd i'w wneud â'r cynllun hwnnw a sut y mae'n mynd i symud ymlaen.

32. **Confor:** Nid oedd Elaine Harrison yn gallu rhoi diweddariad oherwydd teithio.

33. **Y GYMDEITHAS TIR A BUSNES CEFN GWLAD (CLA):** Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

34. **TFA Cymru:** Dywedodd Dennis Matheson mai prif dasg TFA Cymru fu ceisio perswadio Llywodraeth Cymru nad yw'r cynllun newydd yn gweithio i denantiaid. Mae Lesley Griffiths AS wedi dweud nifer o weithiau, os nad yw'n gweithio i denantiaid yna nid yw'n gweithio o gwbl. Wel, ar y sail honno, nid yw'n gweithio o gwbl. Er enghraifft, o'r 17 o gamau gweithredu cyffredinol y mae'n rhaid ichi eu cymryd i ymuno â'r cynllun, dywedodd Dennis mai dim ond 10 ohonynt yn bendant y gallai eu gwneud. Felly, mae'n anodd gweld sut y gall y cynllun hwn ddigwydd mewn gwirionedd. Disgwylir ei gyflwyno ym mis Ionawr 2025 ond mae angen gohirio hyn nes y gellir datrys yr holl broblemau, nid y materion i denantiaid yn unig.

35. Cydnabu Rhys fod hwn wedi bod yn gyfnod anodd gyda'r SFS a'r ymgynghoriad, a diolchodd i'r rhai sydd wedi bod yn bwydo i mewn i'r broses. Mae wedi cymryd llawer o waith i gydgysylltu ymatebion ynghyd â'r camau gweithredu a'r gwaith ychwanegol y bu'n rhaid i chi ei wneud er mwyn gwneud y broses ymateb i'r ymgynghoriad yn

ystyrlon i’ch sefydliadau a’ch aelodau. Arhoswn yn awr i glywed y canlyniadau gan Lywodraeth Cymru maes o law.

## Eitem 7. Unrhyw faterion eraill

36. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym Mehefin/Gorffennaf 2024 – y dyddiad i’w gadarnhau yn fuan.

***PG 4 – 11 Mawrth: Bronwen Martin, CNC, i rannu dyddiadau’r cyfarfodydd sy’n weddill yn 2024.***

37. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

## Cau’r cyfarfod